# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026)

## ARCHWILIAD CYHOEDDUS:

## Sesiwn Gwrandawiad 12 – Dynodiadau a Safleoedd Amgen - Llŷn

**<u>Pwynt Gweithredu S12/PG1– Mynediad i Tir ym Mhenlon Pwllheli</u>**

***Paratoi nodyn i gadarnhau addasrwydd y safle o ran mynedfa i gerbydau.***

Yn dilyn y Gwrandawiad gofynnwyd i'r Uned Drafnidiaeth gadarnhau addasrwydd y fynedfa. Dyma'r ohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Uned Drafnidiaeth:-

"Wedi edrych ar safle gallwn gadarnhau nad oes gwrthwynebiad gan yr Uned Drafnidiaeth i'r llecyn o dir dan sylw. Mae'r safle ar gyrion y dref ond o fewn ffiniau'r cyfyngiad cyflymder 30 m.y.a., credir y gallai'r rhwydwaith ffyrdd lleol ymdopi gyda'r cynnydd traffig a gynhyrchir gan hyd at 8 tŷ ychwanegol.

Argymhellir darparu un fynedfa gerbydol i'r safle yn hytrach nag nifer o fynedfeydd unigol, mewn ffurf mynedfa ffordd stad.  Mae'r cynllun isod yn dangos y dulliau fwyaf deniadol o ddarparu mynediad a rhediad ffordd stad trwy'r safle."

